

# **Briff Ymchwil:** Adroddiad Monitro Brexit: Yr Amgylchedd 18 Mai 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**

E-bost: **[Elfyn.Henderson@assembly.wales](mailto:Elfyn.Henderson@assembly.wales)**

Twitter: **[@SeneddResearch](https://twitter.com/SeneddResearch)**

Blog: **[SeneddResearch.blog](http://SeneddResearch.blog)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Briff Ymchwil

## Adroddiad Monitro Brexit: Yr Amgylchedd 18 Mai 2018

**Awduron:**

Elfyn Henderson, Katy Orford, Chloe Corbyn, Lorna Scurlock, Jessica Laimann  
a Francesca Howorth

**Dyddiad:**

Mai 2018

**Rhif yr ymholiad:**

18-038



## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Trafodaethau rhwng y DU a'r UE.....</b>	<b>1</b>
<b>3. Gweithredu arall gan Lywodraeth y DU.....</b>	<b>3</b>
<b>4. Gweithredu gan Lywodraeth Cymru .....</b>	<b>6</b>
<b>5. Gweithredu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.....</b>	<b>10</b>
<b>6. Gweithredu arall gan y Cynulliad.....</b>	<b>13</b>
<b>7. Gweithredu gan Senedd y DU a Senedd yr Alban.....</b>	<b>14</b>
<b>8. Ffynonellau eraill allweddol .....</b>	<b>19</b>

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â Brexit ym maes polisi amgylcheddol. Fe'i paratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** y Cynulliad. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar weithgarwch diweddar, mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth hŷn lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r trafodaethau rhwng y DU a'r UE a datblygiadau o fewn y DU sy'n effeithio ar y maes polisi amgylcheddol. Mae'n canolbwyntio ar weithgareddau:

- sefydliadau'r UE;
- llywodraethau a deddfwrfeydd y DU; ac
- yn darparu ffynonellau gwybodaeth allweddol eraill.

I gael trosolwg llawn o'r trafodaethau yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE, gweler adroddiadau cyffredinol y Gwasanaeth Ymchwil, **Adroddiadau Monitro ynglŷn â Gadael yr UE a'r Wybodaeth Ddiweddaraf**, sydd wedi'u paratoi ar gyfer **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad.

## 2. Trafodaethau rhwng y DU a'r UE

### Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Bwyd

Ar 19 Mawrth, daeth y DU a'r UE i gytundeb gwleidyddol ar gyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE. Os ceir cytundeb ar y Cytundeb Ymadael, bydd y DU yn gadael yr UE yn ffurfiol ar 29 Mawrth 2019, ond bydd cyfnod pontio o 21 mis rhwng 29 Mawrth 2019 a Rhagfyr 2020.

Bydd y DU yn parhau i gadw at reolau a rheoliadau'r UE yn gyfan gwbl drwy'r cyfnod hwnnw ar ei hyd, a hynny'n cynnwys unrhyw reoliadau newydd a ddaw i rym yn ystod y blynyddoedd hynny. Bydd y DU yn parhau i gymryd rhan yn y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) tan fis Rhagfyr 2020. Bydd y DU hefyd yn parhau i gael mynediad i'r Undeb Tollau a'r Farchnad Sengl ar yr un telerau ag sydd ganddi fel Aelod-Wladwriaeth.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi **cyfres o bapurau briffio ar baratoi ar gyfer Brexit**, ar gyfer dinasyddion a busnesau, yn cynnwys **amryw o gyhoeddiadau yn ymwneud â bwyd, bwyd anifeiliaid a phlanhigion**.

## Lles anifeiliaid

Ar 27 Chwefror cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **bapur briffio ar baratoi ar gyfer Brexit yn ymdrin ag iechyd a lles anifeiliaid**.

## Pysgodfeydd

Mae'r cytundeb gwleidyddol ar y cyfnod pontio yn datgan y bydd y DU yn parhau i gymryd rhan yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin tan fis Rhagfyr 2020. Byddir yn ymgynghori â'r DU ar ddyraniad blynyddol y cwota pysgota yn ystod y cyfnod pontio, a gallai'r DU gael ei gwahodd i gymryd rhan mewn unrhyw ddirprwyaethau o'r UE sy'n negodi hawliau pysgota gyda gwledydd trydydd parti.

Yn dilyn hynny, yn ei **haraith yn Mansion House** ar 2 Mawrth 2018, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r DU yn cydweithredu â'r UE i gydreoli stociau pysgodfeydd ac y byddai'n ceisio cytundeb ar fynediad i ddyfroedd i'r naill ochr a'r llall. Ar 14 Mawrth, mabwysiadodd Senedd Ewrop ei **safbwynt o ran y fframwaith ar gyfer perthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol**. Dywed y penderfyniad:

... the level of access to the EU domestic market must be conditional on the level of access for EU vessels to the UK fishing grounds and their resource.

Ar 23 Mawrth mabwysiadodd y Cyngor Ewropeaidd **ei ganllawiau trafod ar gyfer datganiad gwleidyddol ar y bartneriaeth rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol**.

Amlinellai'r canllawiau y dylai Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol gynnwys mynediad i ddyfroedd pysgota i'r naill ochr a'r llall:

In the overall context of the FTA, existing reciprocal access to fishing waters and resources should be maintained.

Ar 9 Ebrill cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **bapur briffio ar baratoi ar gyfer Brexit yn ymdrin â physgodfeydd a dyframaeth**.

## Gwarchod natur

Ddiwedd mis Ebrill, cafwyd dwy araith gan Brif Drafodwr yr UE, Michel Barnier, yn amlinellu rhai o syniadau'r UE ynghylch y bartneriaeth yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE. Ar 23 Ebrill, rhoddodd **araith yn Hannover Messe** ar gytundeb masnach rydd

rhwng y DU a'r UE. Dywedodd y byddai llawer o'r trefniadau yn ddibynnol ar i'r DU a'r UE sefydlu tir cyffredin o ran cystadleuaeth a chymorth gwladwriaethol, a safonau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mewn **araith i Senedd Ewrop** ar 10 Ebrill, dywedodd Michel Barnier y dylai'r cytundeb ar y berthynas â'r DU yn y dyfodol gynnwys 'cymal dim llithro'n ôl' o ran safonau amgylcheddol. Gwrthododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove, hyn wrth **siarad â Phwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin**, gan ddweud y byddai'n fodd i'r UE roi rheolaeth bosibl iddo'i hun dros ddeddfwriaeth ddomestig. Roedd, fodd bynnag, yn cytuno y byddai'n fater i'w drafod.

### 3. Gweithredu arall gan Lywodraeth y DU

#### Ansawdd aer

Ar 10 Mai, lansiodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) o fewn Llywodraeth y DU ymgyngoriad ar **Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ar ôl Gadael yr UE**. Â Lloegr a materion sydd heb eu datganoli yn unig y mae a wnelo'r ymgyngoriad. Dywed yr ymgyngoriad:

Government intends to replace ... EU environmental reporting with requirements for the Secretary of State to publish implementation reports and data. The Secretary of State may delegate this reporting to delivery bodies responsible for implementing the laws. This would allow the delivery bodies to demonstrate their application of the law and the environmental outcomes achieved.

Mae hyn yn cynnwys darparu adroddiadau ar ansawdd aer, lle mae gofyn ar hyn o bryd i Lywodraeth y DU gyflwyno adroddiadau gweithredu cyfnodol i'r Comisiwn Ewropeaidd.

#### Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Bwyd

Rhwng 27 Chwefror ac 8 Mai, ymgyngorodd Llywodraeth y DU ar bolisi rheoli tir i Loegr ar gyfer y dyfodol: **Health and harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit**. Er bod y ddogfen yn canolbwyntio'n bennaf ar Loegr, mae'r tair adran olaf yn berthnasol i'r DU gyfan: "Devolution: maintaining cohesion and flexibility", "International trade" a "Legislation: the Agriculture Bill". Mae'r ymgyngoriad yn rhagflaenu Mesur Amaethyddiaeth i'r DU, y disgwylir iddo

osod y fframwaith rheoleiddio ar gyfer amaethyddiaeth yn Lloegr ac, mewn rhai meysydd, yn y DU gyfan.

Mae'r cynigion yn adeiladu ar y blaenoriaethau a osodwyd gan Michael Gove yn ei **araith i Gynhadledd yr NFU** ym mis Chwefror.

O ran enwau bwydydd gwarchoddedig, **dywedodd y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, George Eustice, yn Nhŷ'r Cyffredin** ar 8 Mawrth:

... On protected food names, our intention is that the existing legislation will come across through the European Union (Withdrawal) Bill. Third countries can already seek designations for the EU market, and the designations we already have in the UK will be protected through our domestic legislation.

## Lles anifeiliaid

Nid yw **Mesur Ymadael â'r UE** fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaeth i drosglwyddo'r egwyddor a gynhwysir yn Erthygl 13 Cytuniad Lisbon, sy'n cydnabod anifeiliaid fel bodau teimladwy, i ddeddfwriaeth y DU. Gwnaed ymdrechion i ddiwygio'r Bil i gynnwys darpariaethau o'r fath yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Ar 25 Ebrill ystyriodd yr Arglwyddi **welliant 40** ar ymdeimladoldeb a lles anifeiliaid. Mewn ymateb i'r gwelliant, dywedodd Llywodraeth y DU fod gan y DU rai o'r safonau lles anifeiliaid uchaf yn y byd ac ymrwymodd y byddai, wrth inni adael yr UE, nid yn unig yn cynnal y safonau presennol, ond yn eu gwella lle bo modd. Cafodd y gwelliant ei orchfygu gyda 169 yn pleidleisio o'i blaid a 211 yn erbyn.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **Fesur Drafft Lles Anifeiliaid (Dedfrydu a Chydnabod Ymdeimladoldeb)** ym mis Rhagfyr 2017.

Mae **Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig** Tŷ'r Cyffredin wedi cwblhau'r **crffu cyn y broses ddeddfu ar y Mesur Drafft**. Mae ei adroddiad yn galw ar Lywodraeth y DU i lunio asesiad effaith rheoleiddiol ar y Mesur cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Senedd. Mae'n galw ar Lywodraeth y DU i dynnu Cymal 1 ar anghenion lles anifeiliaid fel bodau teimladwy allan a'i ystyried ar wahân, bwrw ymlaen â'r Mesur fel y Mesur Lles Anifeiliaid (Dedfrydu), a chyflwyno darn ar wahân o ddeddfwriaeth ar ymdeimladoldeb anifeiliaid. **Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth y DU** ar 23 Ebrill.

## Pysgodfeydd

Ar 26 Ebrill, cadarnhaodd George Eustice y **bydd y DU yn dod yn wladwriaeth arfordirol annibynnol** (o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr) ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae hyn yn golygu mai'r DU wedyn fydd yn rheoli Parth Economaidd Unigryw y DU a bydd gofyn iddi reoli'r adnoddau byw a'r gweithgareddau pysgota yn y parth mewn ffordd gynaliadwy. Ar 28 Ebrill, cadarnhaodd gynlluniau i **gyflwyno Mesur Pysgodfeydd yn y Sesiwn Seneddol hon**.

## Gwarchod natur

Mae ymgynghoriad cyfredol Defra ar **Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ar ôl Ymadael â'r UE** yn cynnwys cynigion i sefydlu corff amgylcheddol statudol, annibynnol, newydd i ddal y llywodraeth i gyfrif ar yr amgylchedd. Mae hefyd yn bwriadu cyflwyno set o egwyddorion amgylcheddol fel sylfaen i reoleiddio amgylcheddol a llunio polisi. Â Lloegr a materion sydd heb eu datganoli yn unig y mae a wnelo'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, yn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth y DU yn gwahodd cydweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu trefniadau ar y cyd ar gyfer y corff llywodraethu amgylcheddol a'r egwyddorion amgylcheddol.

## Fframweithiau i'r DU

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ei hasesiad dros dro** o'r meysydd lle gallai fod angen fframweithiau cyffredin ar draws y DU ar ôl Brexit, mewn meysydd o gyfraith UE sydd o dan gymhwysedd datganoledig. Mae llawer o'r meysydd yn cynnwys polisi amgylcheddol ac amaethyddol. Mae'r ddogfen yn disgrifio ei ddiben fel a ganlyn:

This is a working document, designed to inform engagement between officials in the UK, Scottish and Welsh Governments and the civil service in Northern Ireland. It sets out the UK Government's provisional assessment of areas of EU law that intersect with devolved competence in each devolved administration. It is possible that the policy positions set out in this document will change following further analysis, including on the UK internal market, and as conversations between the UK and devolved governments continue. As the devolution settlements are asymmetrical, a different range of powers is relevant to Scotland, Wales and Northern Ireland.

Mae'r asesiad yn rhoi 155 o bwerau mewn tri chategori: y rhai y gallai fod angen fframweithiau deddfwriaethol arnynt; fframweithiau anneddfwriaethol; neu dim gweithredu pellach. Er enghraifft, mae cefnogaeth amaethyddol yn perthyn i'r categori fframwaith deddfwriaethol, mae ansawdd aer yn disgyn i'r categori fframwaith anneddfwriaethol ac mae Asesu Effeithiau Amgylcheddol yn disgyn i'r categori dim gweithredu pellach. Mae'r asesiad hefyd yn rhestru 12 maes polisi y mae Llywodraeth y DU yn credu eu bod wedi'u cadw'n ôl ond eu bod yn dal yn destun trafod gyda'r llywodraethau datganoledig.

Ar 24 Ebrill, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb ar newidiadau i Gymal 11 o'r Mesur Ymadael.

Mae'r **gwelliannau i gymal 11 y cytunwyd arnynt** rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhoi rhyddid i'r deddfwrfeydd datganoledig i ddeddfu ar unrhyw feysydd sydd o fewn eu pwerau, yn hytrach na gosod cyfyngiad cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU i wneud rheoliadau sy'n gosod cyfyngiadau mewn meysydd datganoledig. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau sy'n gosod cyfyngiadau yn para am hyd at ddwy flynedd ar ôl y diwrnod ymadael a gall y cyfyngiadau eu hunain bara am hyd at bum mlynedd.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi **Cytundeb Rhynglywodraethol ategol ar y Mesur a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin**. Mae'r Cytundeb hwn yn nodi ymrwymïadau ychwanegol ar sut y bydd y gwelliannau'n gweithio'n ymarferol.

## 4. Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

### Ansawdd aer

Ym mis Chwefror 2018, dyfarnodd yr Uchel Lys fod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd targedau'r UE i leihau llygredd aer mewn achos a gafodd ei ddwyn gan grŵp amgylcheddol ClientEarth. Roedd y dyfarniad yn yr achos llys, a oedd hefyd yn cynnwys Llywodraeth y DU, yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i ddrafftio cynllun erbyn diwedd mis Ebrill, ac i fod â chynllun terfynol ar waith erbyn 31 Gorffennaf i wella ansawdd aer ledled Cymru yn unol â chyfraith yr UE.

Ar 24 Ebrill gwnaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Hannah Blythyn, **ddatganiad yn y Cynulliad** yn cyhoeddi y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Rhaglen Aer Glân Cymru. Y nod "cyntaf fydd sicrhau cydymffurfio â

rhwymedigaethau deddfwriaethol presennol ar ansawdd aer". Dywedodd y Gweinidog, pe bai'r rhaglen "yn nodi bylchau yn yr ysgogiadau angenrheidiol er mwyn gwneud y gwelliannau gofynnol i ansawdd aer", y bydd yn ceisio datblygu deddfwriaeth newydd i fynd i'r afael â hyn. Yn y datganiad, cyhoeddodd y Gweinidog hefyd:

- Ymgynghoriad ar **fframwaith parthau aer glân drafft i Gymru**;
- Ymgynghoriad ar **gynllun Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chrynnodiadau nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd 2017**, sy'n atodol at gynllun y DU;
- Y cyhoeddir cynllun aer glân i Gymru i ymgynghori yn ei gylch erbyn diwedd 2018;
- Y bydd canolfan monitro ac asesu ansawdd aer yng Nghymru yn cael ei sefydlu yn 2019;
- Lansiad **Gwefan Ansawdd Aer Cymru**; a
- Dyraniad o fwy nag £20 miliwn ar gyfer cronfa ansawdd aer hyd at 2021 i helpu i gyflymu'r broses o gydymffurfio â therfynau nitrogen deuocsid a gwella ansawdd aer yng Nghymru.

O ran sefydlu parthau aer glân yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog

Mae'r model arfaethedig ar gyfer Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gerbydau penodol sy'n defnyddio'r ffyrdd fodloni safonau allyriadau diweddaraf Ewrop er mwyn gallu teithio o fewn ffiniau parth aer glân. Gellid cyflwyno hyn drwy gyflwyno cyfyngiadau mynediad ar gyfer y cerbydau sy'n llygru fwyaf, fel gwaharddiadau neu ffioedd.

Cyhoeddwyd ar 17 Mai fod y Comisiwn Ewropeaidd yn dwyn achos am dorri cyfraith Ewropeaidd yn erbyn Llywodraeth y DU, yn ogystal ag aelod-wladwriaethau eraill, am dramgwyddau ansawdd aer. Mae'r Comisiwn wedi cyfeirio'r DU, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Hwngari a Romania at Lys Cyfiawnder Ewrop am dorri rheolau aer glân.

## **Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Bwyd**

Ar 8 Mai, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, **ddatganiad yn y Cynulliad ar ddyfodol rheoli tir**. Mae'r datganiad yn adeiladu ar ei **haraith i Cynhadledd yr NFU ym mis Chwefror** a'r

**Datganiad Ysgrifenedig dilynol ym mis Mawrth.** Yn natganiad mis Mai, ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet ei **phum egwyddor** ar gyfer cynllun newydd a chyhoeddodd y byddai'r Cynllun Taliad Sylfaenol cyfredol yn dod i ben ar ôl blwyddyn 2019 y cynllun. Y pum egwyddor yw:

rhaid inni gadw rheolwyr tir ar y tir;

mae cynhyrchu bwyd yn parhau'n hanfodol i'n cenedl;

bydd y cymorth yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddarparu nwyddau cyhoeddus fydd yn darparu ar gyfer holl bobl Cymru;

dylai pob rheolwr tir gael y cyfle i elwa o'r cynlluniau newydd; ac

mae angen sector amaethyddol llewyrchus a chadarn arnom yng Nghymru, beth bynnag fo natur Brexit.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu cynnwys dwy elfen o gymorth yn y cynllun newydd, un ar gyfer gweithgareddau economaidd ac un ar gyfer cynhyrchu nwyddau cyhoeddus. Ymrwymodd i ariannu'r Cynllun Taliadau Sylfaenol cyfredol tan 2019, yna ceir cyfnod pontio nes bydd y cynllun newydd wedi ei weithredu'n llawn erbyn 2025.

Mae Llywodraeth y DU **wedi ymrwymo i gynnal cyllid amaethyddol tan 2022** ac mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ymrwymo y bydd yr arian yn cael ei ddyrannu'n benodol i amaethyddiaeth a rheoli tir tan y dyddiad hwnnw.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu cyhoeddi cynigion ar gyfer ymgynghori ddechrau mis Gorffennaf. Yn ei datganiad ym mis Mai dywedodd y byddai'r ymgynghoriad hefyd yn ystyried diwygio'r fframwaith rheoleiddio yn ymwneud â dŵr, pridd ac ansawdd aer, ac iechyd anifeiliaid. Dywedodd hefyd ei bod hi'n dal i weithio gyda Llywodraeth y DU i benderfynu ar y ffordd orau o ddeddfu a'i bod yn ystyried un ai Fil Amaethyddiaeth i Gymru neu gynnwys darpariaethau dros dro ym Mesur Amaethyddiaeth arfaethedig y DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan dro ar ôl tro ei bod yn gwrthwynebu trefn lle byddai cyllid ar gyfer rheoli tir yn y dyfodol yn ddarostyngedig i Fformiwla Barnett, ar y sail y byddai hynny'n golygu gostyngiad sylweddol yn y swm o arian a ddeuai i Gymru. **Ailddatganodd Ysgrifennydd y Cabinet y farn hon yn y Cynulliad ar 21 Mawrth** gan ddweud "rydym yn llwyr wrthwynebu unrhyw Farnetteiddio mewn perthynas â'r cyllid hwnnw". Hefyd, gwnaeth y Prif Weinidog, Carwyn Jones, y safbwynt hwn yn glir mewn cyfarfod o'r **Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**

ar 16 Chwefror. Dywedodd na ddylai cyllid yn y dyfodol fod yn ddarostyngedig i Fformiwla Barnett ac na ddylai cymorth amaethyddol fod yn rhan o'r Grant Bloc, sydd i bob diben yn golygu bod arian ar gyfer cymorth amaethyddol yn cael ei glustnodi.

Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd enwau bwyd gwarchoddedig wrth **ymateb i gwestiynau yn y Cynulliad** ar 23 Ionawr:

... credaf ei bod hi'n bwysig iawn, ar ôl i ni adael yr UE, ein bod ni'n ceisio gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i sicrhau bod yr EU yn anrhydeddu unrhyw gynlluniau [enwau bwyd gwarchoddedig] ar y gweill hyd at eu cwblhau. Hefyd, cwmnïau a chynhyrchwyr bwyd sydd â PFN ar hyn o bryd, rwy'n credu y dymunant gadw hynny. Yn sicr, ceir enghreifftiau o wledydd y tu allan i'r UE sydd wedi cofrestru cynhyrchion, felly nid wyf yn gweld fod hynny o reidrwydd yn rhwystr. Felly, credaf fod cynsail cryf i drafod ein rhan barhaus yn y cynllun, ac mae'r rheini'n drafodaethau sydd ar y gweill.

### Ynni a Newid Hinsawdd:

Ar 6 Ebrill cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod **Cymru i fod yn bartner allweddol mewn cynllun ynni cymunedol arloesol a ariennir gan yr UE**. Nod y fenter €5.4 miliwn yw hybu cynlluniau ynni cymunedol lleol gyda phartneriaid ar draws Gogledd-orllewin Ewrop.

### Gwarchod natur

Ar 17 Ebrill gwnaeth Hannah Blythyn **ddatganiad yn y Cynulliad ar effaith Brexit ar yr amgylchedd**. Nododd bum blaenoriaeth:

- gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth;
- gweithio gyda'r parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE);
- cynyddu nifer y coed a choetiroedd;
- cyflymu ein gweithredu ar ansawdd aer; a
- datblygu i fod y gorau yn y byd ar ailgylchu.

## Fframweithiau i'r DU

Ar ddiwedd nawfed cyfarfod y Cydbwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau'r UE a gynhaliwyd ar 3 Mai, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi **cytuno ar gynlluniau i gydweithio ar fframweithiau i'r DU**. Bydd y cynlluniau'n cynnwys trafodaethau lefel swyddogol amlochrog mewn ystod o feysydd lle gallai fod angen fframweithiau. Caiff y cynnydd ar y drafodaeth hon ei hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor (dyddiad i'w gadarnhau).

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Ym mis Rhagfyr 2017, sefydlodd **Cyfoeth Naturiol Cymru** Raglen Ymateb UE gyda'r nod o sicrhau bod y pontio i'r diwrnod cyntaf ar ôl Brexit mor llyfn â phosib. Mae i'r rhaglen ddeg ffrwd waith allweddol, yn cynnwys adrodd, safonau ac amcanion, rheoleiddio a deddfwriaeth, trwyddedu, marchnadoedd a masnach. Nod y ffrydiau gwaith yw gweithio drwy effeithiau a chyfleoedd o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â chysylltu â gwaith Brexit sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.

## 5. Gweithredu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

### Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Bwyd

Cynhaliodd y Pwyllgor **ymchwiliad i ddyfodol polisiau amaethyddol a datblygu gwledig yng Nghymru ar ôl Brexit** yn 2016 a 2017. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad, **dyfodol rheoli tir (PDF 2MB)**, ym mis Mawrth 2017.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system gymorth newydd ar ôl Brexit sy'n darparu canlyniadau cynaliadwy a bwyd o safon uchel. Dywedodd y Pwyllgor hefyd y dylai fod cyfnod pontio sy'n cyfateb i weddill cylch cyllido presennol a chylch cyllido nesaf PAC, ac na ddylai cyllid y dyfodol fod yn ddarostyngedig i Fformiwla Barnett. Roedd argymhellion eraill yn cynnwys mynediad di-dariff a di-gwota i Farchnad Sengl yr UE ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwyd o Gymru, ac y dylai gofynion llafur penodol Cymru gael eu hadlewyrchu yn nhrefodaethau Brexit. **Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r argymhellion (PDF 196KB)**.

Ar 18 Ebrill **ymatebodd y Pwyllgor (PDF 150KB)** i **ymgyngoriad Llywodraeth y DU ar ddyfodol bwyd, ffermio a'r amgylchedd (Health and Harmony)** gan adlewyrchu'r casgliadau yn ei adroddiad ar reoli tir yn y dyfodol.

Cynhaliodd y Pwyllgor **ymchwiliad i bolisi coedwigaeth a choetiroedd** yn 2017. Cafodd adroddiad yr ymchwiliad, **Heb Gyrraedd Gwreiddyn y Mater: uchelgais newydd ar gyfer polisiau coetiroedd (PDF 1MB)**, ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Amlygodd yr angen i gynyddu'r gorchudd coetir er mwyn sicrhau buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, a chreu cyfle i ddod â choedwigaeth fasnachol ac amaethyddiaeth ynghyd mewn polisi rheoli tir mwy cydlynol ar ôl Brexit. **Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r argymhellion (PDF 239KB)** .

Mae'r Pwyllgor wrthi'n cynnal ymchwiliad o'r enw **Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru** ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio i ddechrau ar gaffael bwyd o Gymru a bwyd lleol yn y sector cyhoeddus a chlywodd gan randdeiliaid ar y pwnc hwn ym mis Hydref 2017. Mae'r ymchwiliad yn parhau.

## Ynni a Newid Hinsawdd

Ar 22 Mawrth, bu'r Pwyllgor yn craffu ar Lesley Griffiths o ran **uchelgais Llywodraeth Cymru ym maes newid hinsawdd, a gweithredu a pholisi'r** Llywodraeth. Yn ystod y sesiwn, bu'r Pwyllgor yn trafod Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE a pha un a fyddai Cymru, ar ôl Brexit, yn parhau i gymryd rhan yn y cynllun. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod angen trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i ystyried yr opsiynau, a'i bod hi'n teimlo'n rhwystredig gyda'r diffyg cynnydd ar y mater hwn.

## Pysgodfeydd

Mae'r Pwyllgor yn cynnal **ymchwiliad byr i reoli pysgodfeydd ar ôl Brexit**. Ar 14 Mai, lansiodd y Pwyllgor ymgyngoriad pum wythnos yn gofyn am farn ar:

- I ba raddau y mae polisiau pysgodfeydd a mesurau rheoli ehangach Cymru yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir?
- Pa ganlyniadau a pholisiau y mae Cymru am eu gweld yn sgil Mesur Pysgodfeydd y DU? Sut y gall polisiau adlewyrchu anghenion sectorau gwahanol orau, yn cynnwys y diwydiant pysgota, dyframaethu a chymunedau arfordirol?

- Beth yw'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer pysgodfeydd yn ystod y cyfnod pontio ac ar ôl Brexit?
- Pa mor effeithiol yw gwaith ymgysylltu Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ar bysgodfeydd? A yw buddiannau Cymru yn cael ystyriaeth ddigonol yn nhrefodaethau Brexit?

Mae'r ymgynghoriad yn para tan 18 Mehefin. Bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth bellach ym mis Gorffennaf gan arbenigwyr a rhanddeiliaid ar faterion a fydd yn effeithio ar y diwydiant pysgota ar ôl Brexit.

## Gwarchod natur

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad byr i **lywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ôl-Brexit**. Mae'n edrych ar drefniadau'r dyfodol i lenwi'r 'bwlch llywodraethu' yn absenoldeb sefydliadau'r UE ac mae'n ystyried egwyddorion amgylcheddol yr UE yn y cyd-destun hwn. Clywodd y Pwyllgor gan **banel arbenigol ar 10 Mai** a chynhaliodd **weithdy rhanddeiliaid ar 16 Mai** i gasglu tystiolaeth.

## Fframweithiau i'r DU

Bydd y Pwyllgor yn cynnal **ymchwiliad byr ar fframweithiau cyffredin i'r DU** ym mis Mehefin gyda ffocws ar feysydd polisi sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Mae'r Pwyllgor yn gofyn:

- Ym mha feysydd polisi, o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, y mae angen fframweithiau cyffredin deddfwriaethol ac anneddfwriaethol? A yw'r asesiad dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU wedi nodi dull priodol ac a yw'n gyflawn? A oes gennych unrhyw bryderon penodol ynglŷn â'r categoreiddio arfaethedig?
- Sut y dylid datblygu a gweithredu'r fframweithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol?
- Pa mor ragnodol y dylai'r fframweithiau cyffredin fod a faint o ddisgresiwn y dylai pob gweinyddiaeth ei gael o fewn y fframweithiau?

## 6. Gweithredu arall gan y Cynulliad

### Amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth

Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol **sesiwn casglu gwybodaeth am amaethyddiaeth a Brexit** ar 21 Mai. Clywodd y Pwyllgor gan ddau banel academaidd arbenigol am oblygiadau Brexit i'r diwydiant amaeth a'r cyfleoedd y mae'n eu cyflwyno i ddylunio ffordd newydd o ymdrin â pholisi amaethyddiaeth a rheoli tir.

### Gwarchod natur

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi ymrwymo i “fanteisio ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf i gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith a chau'r bwlch llywodraethu”. Dilynai hyn **ymdrechion aflwyddiannus** i ddiwygio **Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)** (sydd i'w ddiddymu) fel y byddai'n cynnwys corff llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol.

### Fframweithiau i'r DU

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi bod yn ymchwilio i ddatblygiadau yn y trafodaethau ar fframweithiau i'r DU fel rhan o'i waith ar **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'i oblygiadau i Cymru**. Ar 16 Ebrill bu'r Pwyllgor yn holi Mark Drakeford am y **trafodaethau ynghylch fframweithiau cyffredin i'r Deyrnas Unedig**. Esboniodd rywfaint o'r gwaith:

Just under 30 deep dives—formal deep dives—have now been completed. They have covered all of the areas where initial assessments suggested that cross-UK legislative underpinning for frameworks might be needed. All of those deep dives have involved officials from all three administrations. Some deep dives have lasted for more than a day, so the amount of time is slightly longer than the number.

Mae fframweithiau i'r DU wedi cael eu trafod dro ar ôl tro yn y Cyfarfod Llawn. Wrth ateb cwestiynau, cytunodd Lesley Griffiths **fod angen fframweithiau i'r DU mewn rhai meysydd** a thynnodd sylw at y trafodaethau sy'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a'r llywodraethau datganoledig eraill a Llywodraeth y DU ar lefel Gweinidogion a swyddogion.

## 7. Gweithredu gan Senedd y DU a Senedd yr Alban

### Ansawdd aer

Cynhaliodd Pwyllgorau Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Archwilio Amgylcheddol, Iechyd a Thrafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin **ymchwiliad ar y cyd i ansawdd aer** i graffu ar gynlluniau traws-lywodraethol i fynd i'r afael â dwysfannau llygredd. Cyhoeddodd y Pwyllgorau **adroddiad ar y cyd ym mis Mawrth**. Roedd y Pwyllgorau yn argymhell:

... that a new Environmental Protection Agency be established to hold Government to account after EU-exit, and recommend that provision for such an agency be written into legislation, specifying equivalent powers, standards and enforcement mechanisms as the equivalent enforcement agencies in the EU...the new watchdog must have powers equivalent to those of the European Commission to force the Government to act, otherwise action on air quality will be further weakened.

Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad hefyd, gan nad yw Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn darparu ar gyfer trefniadau sefydliadol a llywodraethol yn ymwneud ag ansawdd aer ar ôl Brexit, y dylid gweithredu fel a ganlyn:

... the Government should establish appropriate institutions and agencies to independently enforce air quality requirements. Furthermore, the Government should establish in primary legislation a requirement that UK air pollution standards are at least as high as equivalent standards in the EU, and that the relevant enforcement agency must have equivalent powers, standards and enforcement mechanisms as the equivalent agencies in the EU.

Bu **Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol** Tŷ'r Cyffredin yn craffu ar Michael Gove ym mis Tachwedd 2017 o ran **Polisi Amgylcheddol y Llywodraeth**. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar hon, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

... there are some things that should be common standards at a UK level—air quality and water quality I ventured would be those.

## Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Bwyd

Mae Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin wrthi ar hyn o bryd yn archwilio **ymgyngoriad Llywodraeth y DU ar ddyfodol bwyd, ffermio a'r amgylchedd** drwy ei **ymchwiliad (Health and Harmony)**. Ar 2 Mai, clywodd y Pwyllgor **gan George Eustice**. Yn ystod y sesiwn pwysleisiodd y Gweinidog fod amaethyddiaeth yn faes polisi datganoledig ac mai mater i'r gweinyddiaethau datganoledig yw cyflwyno cynlluniau amaethyddol ôl-Brexit newydd yn eu tiriogaethau, er y bydd hynny yng nghyd-destun fframweithiau i'r DU mewn rhai meysydd. Atebodd gwestiynau hefyd am drefniadau ariannu a chytundebau masnach ryngwladol yn y dyfodol.

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig hefyd yn edrych ar hyn o bryd ar gyfyngiadau llafur yn y sectorau amaethyddiaeth, garddwriaeth a bwyd. Ar 28 Mawrth **clywodd y Pwyllgor gan George Eustice a'r Gweinidog dros Fewnfudo, Caroline Nokes**. Atebodd y Gweinidogion gwestiynau ar ystod o bynciau yn cynnwys y cyflenwad llafur a dibyniaeth ar filfeddygon o'r UE nad ydynt yn hanu o'r DU yn y sector prosesu cig.

Ar 1 Chwefror cyhoeddodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig adroddiad o'r enw **Brexit: Trade in Food (PDF 613KB)**. Roedd **argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth y DU** yn cynnwys cadw enwau bwyd gwarchoddedig ar ffurf debyg, sicrhau hawliau gweithio i filfeddygon o'r UE nad ydynt yn hanu o'r DU sy'n gweithio yn y DU ar hyn o bryd a sicrhau na chytunir ar gytundebau masnach yn y dyfodol ar draul enw da'r DU am safonau uchel o ran lles anifeiliaid, yr amgylchedd a bwyd. **Ymatebodd Llywodraeth y DU i'r argymhellion (PDF 144KB)** ar 25 Ebrill.

Ar 14 Mai, lansiodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig **ymchwiliad i hyrwyddo a marchnata bwyd a diod o Brydain**. Mae'r cylch gorchwyl yn cynnwys effeithiolrwydd polisi Llywodraeth y DU, y cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan fasnach ryngwladol, ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig a rôl enwau bwyd a warchodir gan yr UE. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 8 Mehefin 2012.

Mae Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin yn ymgymryd ag ymchwiliad hir i **amaethyddiaeth, masnach ac adfeddiannu pŵerau ar ôl Brexit**. Mae'r cylch gorchwyl yn cynnwys ystyried fframweithiau i'r DU, cyllid yn y dyfodol a'r goblygiadau i fasnach ryngwladol. Lansiodd yr ymchwiliad yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 2016, ac yna fe'i **ail-lansiodd ym mis Medi 2017** (yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mehefin 2017). Ar 1 Mai, **clywodd y Pwyllgor gan George**

**Eustice**. Dywedodd na allai roi ymrwymiad ynglŷn â sut y byddai cyllid yn cael ei ddyrannu yn y dyfodol, ond ei fod wedi cael sylwadau cryf gan Lywodraeth Cymru a'r sector y byddai'n well ganddynt i gyllid amaethyddol gael ei glustnodi, yn hytrach na'i fod yn ddarostyngedig i Fformiwla Barnett.

Mae Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon Tŷ'r Cyffredin hefyd yn cynnal **ymchwiliad amaethyddol**. Mae'r ymchwiliad yn ystyried meysydd megis cyllid yn y dyfodol a threfniadau masnach, materion llafur, materion trawsffiniol gyda Gweriniaeth Iwerddon ac i ba raddau y mae anghenion Gogledd Iwerddon yn cael eu hadlewyrchu yn **ymgyngoriad Llywodraeth y DU ar ddyfodol bwyd, ffermio a'r amgylchedd (Health and Harmony)**.

Ar 22 Ebrill, cyhoeddodd Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Tŷ'r Cyffredin **adroddiad ar effaith Brexit ar y sector bwyd a diod wedi'u prosesu (PDF 587KB)**. Mae'r Pwyllgor **yn dod i gasgliadau ac yn gwneud argymhellion** mewn meysydd yn cynnwys rhwystrau tariff, rhwystrau ar wahân i dariffau, cysondeb rheoleiddio, sgiliau ac ymchwil a datblygu.

Mae **Pwyllgor Economi a Chysylltedd Gwledig** Senedd yr Alban wrthi'n gwneud gwaith ar **oblygiadau canlyniad Refferendwm yr UE i'r Alban**, gan ganolbwyntio ar amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd.

## Lles anifeiliaid

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cynnal **ymchwiliad i'r fasnach ffwr yn y DU** sy'n edrych ar gyfleoedd ar ôl Brexit i adolygu deddfwriaeth y DU ar fewnforio ffwr.

Mae **Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE** Tŷ'r Arglwyddi yn **archwilio** effaith Brexit ar fioggiogelwch y DU o ran iechyd anifeiliaid a phlanhigion, diogelwch bwyd a rhywogaethau ymledol. At ddibenion yr ymchwiliad, diffinnir bioddiogelwch fel atal a chyfyngu ar ledaeniad plâu, clefydau a phathogenau. Cafodd yr Is-bwyllgor **dystiolaeth ysgrifenedig gan Lesley Griffiths**.

Ar 1 Mai mae **Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir** Senedd yr Alban yn cynnal ymchwiliad i **Egwyddorion Lles Amgylcheddol a Lles Anifeiliaid yr UE**.

## Ynni a Newid Hinsawdd

Ar 25 Ebrill cyhoeddodd Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin adroddiad ar **Gynnydd y DU o ran lleihau Allyriadau Nwyon wedi'u Fflworeiddio**. Mae Adran 4 yr adroddiad yn trafod **Effaith gadael yr UE ar Gyfundrefn Nwyon wedi'u Fflworeiddio y DU**.

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd **Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE** Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar **ddiogelwch ynni ar ôl Brexit**. Mae'r adroddiad yn nodi y bydd Brexit yn peryglu'r fasnach ynni ddirwystr sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y DU a'r UE. Galwodd yr Is-bwyllgor ar Lywodraeth y DU i egluro sut y bydd yn gweithio gyda'r UE i ragweld a rheoli prinder yn y cyflenwadau, ac i asesu pa effaith a gaiff gadael y Farchnad Ynni Fewnol ar y pris a delir gan ddefnyddwyr am eu hynni.

Ymunodd y DU â'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (Euratom) yn 1973. Ers hynny, mae cytundebau'r DU ar fonitro diogelwch gyda'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol (IAEA) wedi cael eu hategu gan aelodaeth y DU o Euratom. Un o swyddogaethau Euratom yw rhoi mesurau diogelu ar waith o ran deunydd niwclear ar draws aelod-wladwriaethau Euratom. Cafodd **Mesur Trefniadau Diogelwch Niwclear 2017-19** ei gyflwyno i'r Senedd ar 11 Hydref 2017 ac mae'n darparu ar gyfer mesurau diogelu niwclear ar ôl i'r DU adael Euratom. Cafodd y Mesur ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 24 Ionawr a'i ail ddarlleniad ar 7 Chwefror. Diwygiwyd y Mesur yn ystod y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Mawrth gan Lywodraeth y DU a'r Wrthblaid, a chafodd drydydd darlleniad ar 27 Mawrth. Ystyriwyd gwelliannau'r Arglwyddi gan Dŷ'r Cyffredin ar 8 Mai.

Yn ei **Haraith yn Mansion House** ar 2 Mawrth, tynnodd y Prif Weinidog sylw at ynni fel maes lle mae cysylltiad agos rhwng economïau'r DU a'r UE. Amlinellodd ei dymuniad i sicrhau cydweithrediad eang gyda'r UE ar ynni, yn cynnwys gwarchod y farchnad drydan sengl ar draws Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Amlinellodd hefyd ei bwriad i archwilio opsiynau i alluogi'r DU i barhau i gyfranogi ym marchnad ynni fewnol yr UE. Ar ben hynny, dywedodd ei bod yn credu y byddai o fudd i'r DU a'r UE i'r DU fod â chysylltiad agos â Euratom.

## Pysgodfeydd

Mae Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin yn cynnal **ymchwiliad pysgodfeydd** i ystyried sut y bydd newidiadau posibl i'r trefniadau pysgodfeydd a masnachu bwyd môr rhwng y DU a'r UE yn effeithio ar bysgotwyr, proseswyr bwyd môr, defnyddwyr, cymunedau arfordirol a'r amgylchedd. Mae'r

ymchwiliad ar agor ar hyn o bryd, ond ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth bellach er mis Rhagfyr 2017.

Mae **Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon** Tŷ'r Cyffredin yn cynnal **ymchwiliad pysgodfeydd** yn edrych ar oblygiadau Brexit i'r diwydiant pysgota yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn cymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Ar 2 Mai **archwiliodd y Pwyllgor gynigion ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn gynaliadwy**. Ar 16 Mai **cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan George Eustice**.

## Morol

Ar 23 Ebrill lansiodd Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd Tŷ'r Cyffredin **ymchwiliad i foroedd cynaliadwy**. Mae'r ymchwiliad yn archwilio sut y gellir diogelu moroedd y DU yn y dyfodol ôl-Brexit.

## Gwarchod natur

Yn dilyn ymdrechion aflwyddiannus i ddiwygio Mesur Ymadael â'r UE wrth iddo fynd drwy wahanol gyfnodau Tŷ'r Cyffredin fel y byddai'n cynnwys corff llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol, cafodd Llywodraeth y DU ei threchu ddwywaith ar y mater hwn wrth i'r Mesur fynd drwy Dŷ'r Arglwyddi.

Ar 15 Mai, **collodd Llywodraeth y DU hefyd bleidlais**, 294 i 244, yn ystod Trydydd Darlleniad y Mesur Ymadael ar ddiwygiad a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i egwyddorion amgylcheddol gael eu hymgorffori yng nghyfraith y DU drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

**Trechwyd Llywodraeth y DU** ar 18 Ebrill, ar welliant i Fesur Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn Nhŷ'r Arglwyddi, pan bleidleisiodd yr Aelodau o 314 o bleidleisiau i 217 o blaid sicrhau mai dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir newid neu ddiddymu cyfraith UE a gedwir, yn ymwneud â hawliau amgylcheddol, ar ôl Brexit. Byddai hyn yn cyfyngu ar bŵer gweinidogion i newid mesurau diogelu amgylcheddol presennol sy'n deillio o gyfraith yr UE heb gymeradwyaeth y senedd.

Ar 18 Ebrill cafodd Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin dystiolaeth lafar gan **Michael Gove ar y cynllun amgylcheddol 25 mlynedd**. Er bod y cynllun 25 mlynedd yn bennaf berthnasol i Loegr, gallai'r polisiau hyn fod â **goblygiadau i Gymru** o ystyried y cynigion i ddatblygu fframweithiau i'r DU mewn rhai meysydd amgylcheddol.

Ar 26 Ebrill cafodd y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol **lythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol (PDF 1.61 MB)** yn ymateb i gais y Pwyllgor am restr gynhwysfawr o'r mwy na 300 o ffrydiau gwaith yn ymwneud â Brexit. Dywed hefyd fod Defra, erbyn 28 Chwefror, wedi recriwtio 1150 o staff ychwanegol.

Ar 18 Mai lansiodd y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol ei **ymchwiliad llywodraethu amgylcheddol** lle bydd yn edrych ar yr ymgynghoriad gan Defra a grybwyllwyd uchod. Mae'r Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth ysgrifenedig (tan 1 Mehefin 2018).

Ar 14 Mawrth 2017 a 23 Ionawr 2018, bu Pwyllgor Senedd yr Alban dros yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir yn gwrandao ar **baneli arbenigol yn sôn am y goblygiadau amgylcheddol i'r Alban wrth i'r DU adael yr UE.**

## Fframweithiau i'r DU

Ar 13 Mawrth cynhaliodd Pwyllgor Senedd yr Alban dros yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir **sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog dros Drafodaethau'r DU ar Sefyllfa yr Alban yn Ewrop, Michael Russell**, ar Fesur y DU yn Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad Cyfreithiol) (Yr Alban) (Bil Parhad yr Alban).

## 8. Ffynonellau eraill allweddol

### Ansawdd aer

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Briff Ymchwil ar Brexit ac Ansawdd Aer**, Mawrth 2018.

### Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Bwyd

Confor, **Forestry and Timber: Productivity and Public Good in a post Brexit World**, Ebrill 2018.

Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), **Gwefan Adroddiadau Polisi**.

Y Ffederasiwn Bwyd a Diod, **Tudalennau gwe ar ymadael â'r UE.**

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Brexit: UK agriculture policy**, Ionawr 2018.

NFU Cymru, **Gweledigaeth ar gyfer dyfodol ffermio: polisi amaethyddol domestig newydd**, Mehefin 2017.

NFU Cymru, **Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU, Health and Harmony**, Mai 2018.

RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaethau Natur, **Assessing the costs of Environmental Land Management in the UK (PDF 787KB)**, Hydref 2017.

Cyswllt Amgylchedd Cymru, **Gweledigaeth i Gymru ar reoli tir yn gynaliadwy (PDF 9.10MB)**, Gorffennaf 2017.

Cyswllt Amgylchedd Cymru, **Cyllid yn y Dyfodol ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru (PDF 655KB)**, Ionawr 2018.

## Lles anifeiliaid

RSPCA, **Gwefan Political Animal**.

## Pysgodfeydd

Blog Prifysgol Caerdydd, **Dyfodol Pysgodfeydd Cymru**, Mai 2018.

UK in a Changing Europe, **Article 50 one year on: Fisheries**, Ebrill 2018.

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Implications of Brexit for Fishing Opportunities in Wales**, Chwefror 2018.

## Gwarchod natur

Greener UK, **Briffiau Mesur Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**.

UK Environmental Law Association (UKELA), **Brexit and nature conservation fact sheet**, Medi 2017.

## Fframweithiau i'r DU

Institute for Government, **Devolution after Brexit: Managing the environment, agriculture and fisheries**, Ebrill 2018.

Canolfan Gwybodaeth Senedd yr Alban (SPICe) ac Institute for Government, **Common UK Frameworks after Brexit**, Chwefror 2018.

Rhwydwaith academiaidd Brexit & Environment, **Taking back and sharing control? Brexit and the common environmental frameworks**, Mawrth 2018.

## Adroddiadau eraill

Y Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewropeaidd, **Brexit negotiations: Equivalence, environmental standards and risks**, Mai 2018.

Cyfeillion y Ddaear, **UK Environmental Policy Post-Brexit: A Risk Analysis**, Ebrill 2018.